



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys  
Powys Teaching  
Health Board

## Knighton and East Radnorshire Community Focus

### *Update on NHS services in Knighton and East Radnorshire*

This bulletin keeps you updated on the development of NHS services in Knighton and East Radnorshire including Knighton Community Hospital.

Issue 1  
30 November 2022

**Thank you to everyone who has supported our recruitment campaign during 2022. With newspaper advertising, a social media campaign, attendance at Knighton Carnival & Show, and a recruitment open day at the hospital, we have been working hard to recruit registered nursing staff to join the team.**

In March 2020 we were all responding to the uncertainties of a new pandemic. At that time we took the decision to amalgamate the inpatient beds from Knighton and Llandrindod Wells hospitals on a temporary basis. This was very carefully considered and - knowing now what has happened during the pandemic – it was the right decision in order to sustain the maximum number of community hospital beds for the people of Mid Powys. This was particularly important given the numbers of staff vacancies that already existed, as well as recognising the significant level of staff absence that was likely to occur either through shielding or through sickness.

Importantly, the rest of the services at the hospital remained open, although we accessed services was very different due to the vital measures to reduce the spread of COVID-19 and maintain social distancing.

You can find more information about those temporary changes on our website.

As the restrictions of the pandemic began to ease we planned to re-open the ward. But, the ward had been heavily reliant on agency staffing pre-pandemic and in spring 2021 there were not sufficient registered nursing staff to open the ward safely.

Recruitment has been ongoing, including our intensive campaign during 2022. We were delighted that our recruitment open day led to 29 expressions of interest in employment at Knighton Hospital and in local health and care services. Sadly though, interest in registered nursing roles has not yet reached the levels needed to run a ward 24 hours a day, seven days a week.

In the meantime, Knighton Hospital continues to provide a wide range of health and care services for the local community. We provide outpatient services, therapies and a midwife-led birth centre, alongside the Cottage View Residential Care Home. The hospital also continues to be a hub for healthcare teams working in people's homes across East Radnorshire.

Our recruitment is continuing, and we would encourage any registered nurses interested in joining the inpatient team at Knighton Hospital to please contact us at [powysjobs@wales.nhs.uk](mailto:powysjobs@wales.nhs.uk)

We will keep you posted as this work progresses.

[www.pthb.nhs.wales/knighton-hospital](http://www.pthb.nhs.wales/knighton-hospital)



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys  
Powys Teaching  
Health Board

## Ffocws Cymunedol Tref-y-clawdd a Dwyrain Sir Faesyfed

### Diweddariad ar wasanaethau'r GIG yn Nhref-y-clawdd a Dwyrain Sir Faesyfed

Mae'r bwletin hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar ddatblygiadau i wasanaethau'r GIG yn Nhref-y-clawdd a Dwyrain Sir Faesyfed, gan gynnwys Ysbyty Cymunedol Tref-y-clawdd.

Rhifyn 1  
24 Tachwedd 2022

**Diolch i bawb sydd wedi cefnogi ein hymgyrch recriwtio yn ystod 2022. Trwy hysbysebu ym mhapurau newydd, cynnal ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, bod yn bresennol yng Ngharnifal a Sioe Tref-y-Clawdd, a chynnal diwrnod agored recriwtio yn yr ysbyty, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i recriwtio staff nyrsio cofrestredig i ymuno â'r tîm.**

Ym mis Mawrth 2020, roeddem i gyd yn ymateb i'r ansicrwydd yn sgil pandemig newydd. Bryd hynny, gwnaethom y penderfyniad i gyfuno'r gwelyau cleifion mewnol o ysbytai Tref-y-clawdd a Llandrindod dros dro. Cafodd hyn ei ystyried yn ofalus iawn ac - o wybod nawr beth sydd wedi digwydd yn ystod y pandemig - dyma'r penderfyniad cywir er mwyn cynnal y nifer uchaf o welyau yn ysbytai cymunedol ar gyfer pobl Canolbarth Powys. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried nifer y swyddi gwag a oedd eisoes yn bodoli, yn ogystal â chydabod y lefel sylweddol o absenoldeb staff a oedd yn debygol o ddigwydd naill ai drwy warchod neu drwy salwch.

Fodd bynnag, arhosodd gweddill y gwasanaethau yn yr ysbyty ar agor, er i ni gyrchu gwasanaethau mewn ffordd wahanol iawn oherwydd y mesurau hanfodol i leihau lledaeniad COVID-19 a chadw pellter cymdeithasol.

Am fwy o wybodaeth am y newidiadau dros dro ewch i'n gwefan.

Wrth i gyfyngiadau'r pandemig ddechrau llacio roeddem yn bwriadu ailagor y ward. Ond, roedd y ward wedi bod yn ddibynnol iawn ar staffio gan asiantaethau cyn y pandemig ac yng ngwanwyn 2021 doedd dim digon o staff nyrsio cofrestredig i agor y ward yn ddiogel.

Mae gwaith recriwtio wedi parhau, a chynhaliom ymgyrch ddwys yn ystod 2022. Roeddem wrth ein boddau bod ein diwrnod agored recriwtio llwyddiannus wedi arwain at 29 datganiad o ddiddordeb i weithio yn Ysbyty Tref-y-clawdd ac mewn gwasanaethau iechyd a gofal lleol. Ond yn anffodus, nid yw diddordeb mewn rolau nyrsio cofrestredig wedi cyrraedd y lefelau sydd eu hangen eto i redeg ward 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Yn y cyfamser, mae Ysbyty Tref-y-clawdd yn parhau i ddarparu ystod eang o wasanaethau iechyd a gofal i'r gymuned leol. Rydym yn darparu gwasanaethau cleifion allanol, therapiau a chanolfan geni dan arweiniad bydwragedd, ochr yn ochr â Chartref Gofal Preswyl Cottage View. Mae'r ysbyty hefyd yn parhau i fod yn ganolfan i dimau gofal iechyd sy'n gweithio yng nghartrefi pobl ar draws Dwyrain Sir Faesyfed.

Mae ein recriwtio yn parhau, a byddem yn annog unrhyw nyrsys cofrestredig sydd â diddordeb mewn ymuno â'r tîm cleifion mewnol yn Ysbyty Tref-y-clawdd i gysylltu â ni yn [powysjobs@wales.nhs.uk](mailto:powysjobs@wales.nhs.uk)

Byddwn eich diweddarw wrth i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen.

[www.biap.gig.cymru/ysbyty-trefyclo](http://www.biap.gig.cymru/ysbyty-trefyclo)